

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Trosolwg

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgiliau sy'n gysylltiedig â chynnal triniaethau trydanol gyda nodwydd er mwyn cael gwared ar flew, gan ddefnyddio cerrynt eiledol a thechnegau blendio. Bydd angen i chi ymgynghori'n drylwyr gyda'r cleient, ffurfio cynllun gwasanaeth unigol, darparu triniaeth a chyngor ôl-ofal.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori da.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau diflewio trydanol
2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau
3. cyflawni triniaeth diflewio trydanol

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau diflewio trydanol**

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y driniaeth
2. paratoi a gwarchod eich cleient a'ch hun gyda chyfarpar amddiffyn personol o fewn yr ardal dan reolaeth
3. cynnal urddas, preifatrwydd a chysur eich cleient bob amser
4. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y driniaeth heb achosi anghysur iddynt
5. sicrhau bod eich ystum a'ch dulliau gwaith eich hun yn isafu ar flinder a risg o anaf i'ch hun ac eraill
6. sicrhau bod yr amodau amgylcheddol yn addas ar gyfer y cleient a'r driniaeth
7. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio
8. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân
9. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch
11. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol
12. cynnal y driniaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau**

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu **cynllun triniaeth** y cleient
14. sicrhau caniatâd gwybodus wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad cyn trin plentyn cyn unrhyw driniaeth
15. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant

Darparu triniaeth diflewio trydanol

sy'n iau na 16 oed

16. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd unrhyw **gamau angenrheidiol**
17. cytuno ar driniaeth a chanlyniadau sy'n bodloni anghenion y cleient
18. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn unrhyw driniaeth
19. adnabod **math o flew, a math a chyflwr croen** y cleient, yr ardal a fydd yn cael ei thrin ac amcanion y driniaeth
20. tynnu lluniau o'r ardal a fydd yn cael ei thrin, gan ddilyn arferion sefydliadol
21. esbonio'r teimlad corfforol a grëir gan y driniaeth
22. cynnal prawf clwt cyn y driniaeth, gan ddilyn gofynion sefydliadol
23. dewis a pharatoi cyfarpar a chynnyrch i fodloni amcanion y driniaeth

Cyflawni triniaeth diflewio trydanol**

24. sicrhau bod yr **ardal a fydd yn cael ei thrin** yn lân, yn rhydd o olew ac yn sych
25. dewis **triniaethau diflewio trydanol** sy'n addas ar gyfer **math o flew, a math a chyflwr croen** y cleient
26. defnyddio nodwydd o fath a maint sy'n addas i drin math o flew, a math a chyflwr croen y cleient
27. gosod a defnyddio nodwyddau gan osgoi difrod a heintio trwy gydol y driniaeth
28. goleuo'r ardal driniaeth a defnyddio chwyddiad i sicrhau'r gwelededd orau yn ystod y driniaeth
29. trin y croen i fodloni anghenion yr **ardal a fydd yn cael ei thrin**
30. sicrhau bod daliwr y nodwydd a'r nodwydd ei hun yn cael eu defnyddio ar yr ongl, cyfeiriad a dyfnder cywir ar gyfer y ffoligl blew a'r ardal a fydd yn cael ei thrin
31. addasu arddwysedd a chyfnod llif y cerrynt fel eu bod yn addas ar gyfer goddefgarwch ac adwaith croen y cleient
32. gweithio'n systematig i dynnu'r blew o'r ffoligl sydd wedi ei thrin heb dyniant

Darparu triniaeth diflewio trydanol

33. taenu cynnyrch ôl ofal i'r ardal driniaeth
34. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y driniaeth a ddarparwyd
35. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu llanw a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth ddarparu triniaethau diflewio trydanol**

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd
2. y rhesymau dros wirio canllawiau yswiriant cyfredol ar gyfer darparu triniaethau diflewio trydanol
3. y cyfrifoldebau am eich hun a'ch adeilad mewn perthynas â rheoliadau trwyddedu'r awdurdod lleol
4. pam mae hi'n bwysig cynnal urddas, preifatrwydd a chysur y cleient
5. sut gall safle'ch cleient a'ch hun effeithio'r canlyniad dymunol a lleihau blinder a'r risk o anaf
6. pwysigrwydd hylendid, amddiffyniad a chyflwyniad personol er mwyn cynnal iechyd a diogelwch yn eich gweithle
7. y mathau gwahanol o anafiadau yn y gweithle sy'n gysylltiedig â darparu diflewio trydanol a sut y gellir eu hosgoi
8. amodau amgylcheddol sy'n angenrheidiol ar gyfer triniaethau megis, gwresogi ac awyru, a pham mae'r rhain yn bwysig
9. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio
10. pam mae hi'n bwysig osgoi croes-heintio uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy weithio'n ddiogel ac yn lân
11. y peryglon a'r risgiau sy'n gysylltiedig â darparu triniaethau diflewio datblygedig a sut y gellir lleihau'r rhain
12. y gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**
13. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar ddefnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn

Darparu triniaeth diflewio trydanol

14. y gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff
15. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer triniaethau**

16. pam mae'n bwysig cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol
17. sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient
18. y gofynion cyfreithiol dros ddarparu triniaethau i blant sy'n iau na 16 oed
19. yr oed pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hyn yn amrywio'n genedlaethol
20. pwysigrwydd cytuno ar driniaeth sy'n bodloni anghenion y cleient
21. pwysigrwydd cyfreithiol sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient i gynnal y driniaeth
22. y gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient
23. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y driniaeth a pham
24. y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham
25. y camau angenrheidiol mewn cysylltiad â gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
26. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
27. sut i adnabod **gwahanol fathau o dwf blew**, mathau blew, mathau chyflyrau croen
28. pam mae'n ddoeth tynnu lluniau o'r ardal driniaeth cyn ac ar ôl triniaethau a sut y dylid eu tynnu
29. sut i ddisgrifio teimlad corfforol y driniaeth i'r cleient a beth all effeithio ar drothwy poen y cleient
30. y rhesymau pam mae hi'n ddoeth cynnal prawf clwt cyn y driniaeth a darparu cyfarwyddiadau ôl-ofal
31. pwysigrwydd rhoi gwybodaeth yn cynnwys defnydd cymhorthion gweledol i helpu'r cleient i

Darparu triniaeth diflewio trydanol

ddeall y gylchred twf blew

32. y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â thriniaethau diflewio trydanol, megis cost, amser, nifer y triniaethau, y cyfnod gwella ac ymrwymiad y cleient

33. sut mae sensitifrwydd y croen yn cael ei effeithio gan driniaethau croen eraill y gall atal diflewio trydanol

34. sut i baratoi'r cyfarpar, cynnyrch a deunyddiau ar gyfer triniaethau diflewio trydanol

Cyflawni diflewio trydanol**

35. y gwahanol fathau a defnydd o gyfarpar, cynnyrch a deunyddiau sydd ar gael ar gyfer diflewio trydanol

36. sut i osod a defnyddio nodwyddau i osgoi difrod a heintio

37. pam mae hi'n bwysig defnyddio chwyddiad a goleuo'r ardal driniaeth

38. math a maint y nodwydd sy'n addas i'r math blew, diamedr, math croen a'r ardal driniaeth

39. pam a sut rydych yn ymestyn a thrin y croen yn ystod triniaeth

40. y rhesymau dros weithio'n systematig gyda'r bylchau cywir ar draws yr ardal a fydd yn cael ei thrin

41. sut i osod y nodwydd i mewn i'r ffoligl blew gyda golwg ar ddyfnder, ongl a chyfeiriad, a chanlyniadau gosod y nodwydd i mewn yn anghywir

42. sut i addasu arddwysedd a chyfnod llif y cerrynt fel eu bod yn addas ar gyfer goddefgarwch a sensitifrwydd croen y cleient

43. sut i ryddhau blew o wahanol fathau o ffoliglau heb dyniant

44. egwyddorion, defnydd a buddion cerhyntau eiledol megis tonfedd fer, amledd radio ac amledd uchel

46. y **gwrtharwyddion** posibl a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a'r cyngor i'w roi i gleientiaid

47. **anatomi a ffisioleg** blew a chroen

48. y **gylchred twf blew**, **achosion twf blew** a sut mae'r rhain yn effeithio ar y driniaeth

49. y **cyngor a'r argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

Technegau ymgynghori**

1. holi
2. gwranddo
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

Cynllun triniaeth**

1. hanes meddygol
2. achosion twf blew
3. rheoli blew yn awr ac yn y gorffennol
4. gofal croen presennol

Camau angenrheidiol**

1. annog y cleient i ofyn am gyngor meddygol
2. esbonio pam nad oedd modd cynnal triniaeth
3. addasu triniaeth

Math o flew**

1. mân
2. garw
3. cyrliog

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Math a chyflwr y croen**

1. sych
2. olewog
3. sensitif
4. dadhydredig

Ardal i'w drin**

1. gwefus uchaf
2. gên
3. llinell bicini
4. aeliau
5. ceseiliau
6. gwddf
7. abdomen
8. brest

Triniaethau diflewio trydanol**

1. cerrynt eiledol
2. blendio

Math y nodwydd**

1. undarn
2. deuddarn
3. ynysedig

Darparu triniaeth diflewio trydanol

4. aur

5. gwrthstaen

Cyngor ac argymhellion**

1. cynnyrch ôl-ofal addas a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. y cyfnodau a argymhellir rhwng triniaethau

4. cynnyrch a thriniaethau yn awr ac yn y dyfodol

5. delio ag aildyfiant rhwng triniaethau

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

Iechyd a diogelwch**

1. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**

1. gostwng gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2. gostwng defnydd ar ynni (cyfarpar sy'n arbed ynni, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. gostwng defnydd ar ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd
5. defnyddio eitemau untro
6. defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, ecogyfeillgar
7. defnyddio paent â chemegau isel

Darparu triniaeth diflewio trydanol

8. defnyddio pecynnau cynnyrch ecogyfeillgar
9. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
10. annog siwrneion i'r gwaith sy'n gostwng carbon

Anghenion amrywiol**

1. diwylliannol
2. crefyddol
3. oed
4. anabled
5. rhyw

Gwrtharwyddion sy'n atal

1. rheoliaduron y galon
2. clefyd gwaedu
3. mewnbaniadau cochlea

Gwrtharwyddion sy'n cyfyngu

1. psoriasis
2. ecsema
3. acne
4. epilepsi
5. clefyd siwgr
6. pinnau a phlatiau metel
7. afiechydon heintus

Gwahanol fathau o dwf blew**

1. terfynol
2. vellus
3. blew sy'n tyfu i'r byw

Adweithiau**

1. cochni
2. chwydd gwyn
3. gwelwi
4. gwaedu
5. cleisio

Anatomi a ffisioleg**

1. strwythur a swyddogaethau'r croen
2. egwyddorion gwella'r croen
3. strwythur blew a'i ffoligl
4. strwythur a swyddogaethau'r system endocrin
5. effaith camweithrediadau'r system endocrin ar dwf blew
6. egwyddorion y system gylchredol a lymffatig

Cylchred twf blew**

1. anagen
2. catagen
3. telogen

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Achosion twf blew**

1. argroenol
2. genedigol
3. systemig

Cyngor ac argymhellion**

1. gwasanaethau ychwanegol
2. cynnyrch ychwanegol
3. yr adweithiau arferol y gall ddigwydd ar ôl triniaeth a sut i ddelio ag unrhyw adweithiau anarferol
4. cyfyngiadau ar ôl triniaeth ac anghenion triniaeth yn y dyfodol
5. y rhesymau dros osgoi'r gweithgareddau canlynol ar ôl triniaeth diflewio trydanol: triniaethau gwres, defnyddio cynnyrch â phersawr neu gemegau, gwisgo dillad cyfyngedig ar yr ardaloedd sydd wedi eu trin
6. cynnyrch at ddefnydd y cartref a fydd o fudd i ac yn gwarchod y cleient a'r rheini i'w hosgoi a pham
7. dulliau priodol i ddelio ag aildyfiant rhwng triniaethau

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd gweithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. esbonio'n glir wrth y cleient os na ellir bodloni eu hanghenion neu'u disgwyliadau am unrhyw reswm
10. cynnal dulliau gwaith effeithiol, glân a diogel
11. cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr wrth ddefnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel
12. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwyh

Darparu triniaeth diflewio trydanol

3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

Geirfa

Cerrynt eiledol (triniaeth diflewio trydanol)**

Yn aml fe elwir cerrynt eiledol siglog yn ddiathermedd ac mae'n dinistrio celloedd twf blew gan ddefnyddio gwres.

Blendio (triniaeth diflewio trydanol)**

Taenu cerrynt union ac amledd uchel i'r ffoligl blew ar yr un pryd.

Nodwydd aur**

Nodwydd eurlatiog

Clwt prawf**

Hwn yw'r prawf sy'n pennu gradd ymateb y croen a'r sensitifrwydd. Gellir defnyddio clytiau prawf i brofi graddau sensitifrwydd gwres ac ymateb i boen ynghyd ac ymateb y croen. Gall clwt prawf cynnwys prawf clwt, prawf thermol neu brawf cyffwrdd.

Nodwydd deuddarn**

Nodwydd wedi'i wneud o ddau ddarn gwahanol o fetel wedi'u crebachu a'i gilydd.

Darparu triniaeth diflewio trydanol

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAB29
Galwedigaethau perthnasol	Therapydd Harddwch, Electrolegydd
Cyfres/Set	Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	trydanol; diflewio